

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant Adroddiad Gwrthwynebu

**Y cynnig i ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys
yng Nghymru Dewi Sant o ysgol â 140 o
leoedd i ysgol â 210 o leoedd
i ateb y galw am addysg yr Eglwys yng
Nghymru yn y dyfodol.**



Gellir cynnig y ddogfen hon mewn fformatau eraill.
Gellir trefnu i gael yr wybodaeth hon mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen.
Ffoniwch 01656 656447 i drefnu hynny.

Cynnwys

Cefndir	3
Adroddiad Ymgynghori	3
Hysbysiad Statudol	Error! Bookmark not defined.
Gwrthwynebiadau i'r Cynnig	Error! Bookmark not defined.
Casgliad	Error! Bookmark not defined.
Argymhellion	Error! Bookmark not defined.

Cefndir

Cynhaliodd corff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ymarfer ymgynghori ar y cynnig dan sylw o 28 Ionawr 2019 i 15 Mawrth 2019. Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybod i'r ymgynghoreion penodedig am y cynnig ad-drefnu ysgolion a roddwyd gerbron dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac y cyfeirir ato fel addasiad rheoledig fel a ganlyn:

- I gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u hamlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd yn cynnig cyfle i ymgynghoreion penodedig yn ogystal â'r gymuned leol ddysgu am y cynnig ac i'r corff llywodraethu glywed barn y rheiny oedd â diddordeb ynddo fel y gellid ei ystyried cyn bwrw ati i wneud unrhyw benderfyniadau.

Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, ni ddaeth unrhyw ymatebion yn erbyn y cynnig i law. Ymatebodd y corff llywodraethu i nifer o ymholiadau a phryderon a gyflwynwyd gan y gymuned. Cyhoeddwyd yr ymatebion dan sylw yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad.

Adroddiad Ymgynghori

Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori ar ôl yr ymarfer ymgynghori. Cafodd yr adroddiad ymgynghori ei ystyried gan y corff llywodraethu ar 21 Mawrth 2019.

Hysbysiad Statudol

Ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori ar 21 Mawrth 2019, penderfynodd y corff llywodraethu fwrw ymlaen â'r cynnig a chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar y cynnig ar 29 Ebrill 2019 am gyfnod o 28 diwrnod er mwyn galluogi cyflwyno gwrthwynebiadau. Daeth cyfnod yr hysbysiad statudol i ben ar 27 Mai 2019.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar wefan yr ysgol a gwefan Cyngor Bro Morgannwg (<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Expanding-St-Davids-CIW-Primary.aspx>) a'i arddangos ar brif fynedfeydd yr ysgol. Dosbarthwyd copïau o'r hysbysiad i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, llywodraethwyr a staff. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 rhoddwyd un ai copi caled neu ddolen mewn e-bost i'r hysbysiad a gyhoeddwyd ar wefan y cyngor i'r holl sefydliadau ac ymgynghoreion eraill. I'r sawl oedd yn

gohebu drwy e-bost, rhoddwyd copi o'r llythyr a hysbysiad fel atodiad i'r e-bost yn ogystal â dolen i'r hysbysiad ar y wefan.

Pan fo gwrthwynebiadau yn dod i law mewn perthynas â hysbysiad statudol, rhaid cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny.

Gwrthwynebiadau i'r Cynnig

Daeth 3 gwrthwynebiad unigol i law'r corff llywodraethu erbyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Ceir crynodeb o'r gwrthwynebiadau isod, ynghyd ag ymateb y corff llywodraethu.

Mae'r holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod dan sylw wedi eu gwneud ar gael i aelodau'r corff llywodraethu i'w hystyried ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Thema Gwrthwynebiad 1

Ni ddylid gwario arian trethdalwyr ar ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Dylid rhoi blaenoriaeth i ysgolion cynradd cymunedol lleol.

Ymateb y corff llywodraethu i'r gwrthwynebiad

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i sicrhau bod digon o leoedd ysgol ar gael o ran eu nifer a natur. Mae gan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant 140 o leoedd ysgol ac ar hyn o bryd mae 130 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae'r dosbarth derbyn a blwyddyn 1 yn cynnwys mwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig o 20 o ddisgyblion. Mae hyn yn dangos mai dim ond ychydig o leoedd sydd gan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ddigon i'w cynnig i ddisgyblion ychwanegol. Amcanestynnir y bydd datblygiadau tai diweddar ac yn y dyfodol yn cynyddu'r galw am addysg yr Eglwys yng Nghymru. Byddai'r cynnig hwn yn cynorthwyo'r Cyngor i fodloni ei ddyletswydd statudol i gynnig digon o leoedd ysgol.

Cost ddisgwylidig yr ysgol newydd yw £4.185 miliwn. Bydd 85% o'r arian hwn yn destun cais am gyllid i Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae lefel cyllid Llywodraeth Cymru yn uwch ar gyfer ysgolion ffydd - 65% yw'r gyfradd gyllid ar gyfer ysgolion cymunedol. Y Cyngor fydd yn darparu'r cyllid o 15% sy'n weddill. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn cael ei gyllido gan y trethdalwr ond o gyfraniadau Adran 106 a dderbynnir gan ddatblygwyr tai. Derbyniwyd y cyfraniadau hyn i liniaru effaith disgyblion ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiadau.

Mae'n werth nodi hefyd bod y Cyngor wedi barnu bod adeiladau Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant mewn cyflwr gwael. Byddai buddsoddi mewn adeilad ysgol newydd yn gostwng y costau cynnal a chadw cyfredol ac yn cynnig amgylchedd addysgu a dysgu gwell i ddisgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant.

Thema Gwrthwynebiad 2

Ni ddylid trosglwyddo'r adeilad ysgol newydd i ddwylo'r esgobaeth ar ôl ei gwblhau a dylai barhau i fod yn berchen i'r cyhoedd.

Ymateb y corff llywodraethu i'r gwrthwynebiad

Mae'r tir y mae adeiladau'r ysgol yn ei feddiannu yn berchen i'r Esgobaeth ar hyn o bryd ac mae'r tir o amgylch yr adeiladau yn berchen i'r Cyngor. Dyma'r achos gyda'r holl ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ym Mro Morgannwg. Cynigir adeiladu'r ysgol newydd ar y safle presennol, yn fwy na thebyg ar gae'r ysgol.

Ar ôl cwblhau'r ysgol newydd, byddai'r tir a feddiannir gan yr ysgol newydd yn cael ei drosglwyddo i'r Esgobaeth. Byddai'r tir a feddiannir gan adeiladau presennol yr ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor. Gan ei bod yn debygol mai adeilad deulawr fydd adeilad yr ysgol newydd, mae'n debygol y bydd ôl troed yr ysgol newydd yn debyg iawn i ôl troed yr adeilad presennol gan newid ychydig iawn ar drefniadau presennol.

Thema Gwrthwynebiad 3

Byddai cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol yn arwain at gynyddu tagfeydd yn yr ardal. Mae hyn yn achosi pryderon difrifol am ddiogelwch trigolion a disgyblion.

Ymateb y corff llywodraethu i'r gwrthwynebiad

Byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd. Byddai hyn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol. Byddai'r asesiad trafndiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd. Byddai'r corff llywodraethu yn cydweithio'n glos â Thîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor drwy gydol y broses ddylunio.

Byddai'r dyluniad terfynol yn destun caniatâd cynllunio. Mae'r broses gynllunio yn cynnwys ymgynghoriad statudol â thrigolion lleol. Byddai trigolion lleol yn gallu rhoi adborth ar y dyluniad, gan gynnwys yr asesiad trafndiaeth.

Byddai'r corff llywodraethu hefyd yn cydweithio'n glos â Thîm Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor a'r contractwr i darfu cyn lleied â phosibl ar y gwaith o adeiladu'r adeilad ysgol newydd ar y safle presennol. Byddai amserau danfon nwyddau yn cael eu cyfyngu yn ystod yr amserau prysuraf i liniaru'r effaith. Mae'r Cyngor wedi dweud y caiff logisteg y safle ei asesu fel rhan o'r broses tendro.

Thema Gwrthwynebiad 4

Nid yw'r cynnig yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

Ymateb y corff llywodraethu i'r gwrthwynebiad

Fel yr amlinellwyd uchod, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i sicrhau nifer digonol o leoedd ysgol o ran eu nifer a natur. Mae'r cynnig hwn yn cynorthwyo'r Cyngor i fodloni ei ddyletswydd statudol gan fod rhagfynegiadau yn dangos na fyddai gan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant nifer digonol o leoedd i fodloni'r galw yn y dyfodol heb ehangu.

Byddai'r cynnig hefyd yn cynnwys cyfleusterau newydd a fyddai ar gael at ddefnydd y gymuned. Mae'r cyfleusterau presennol mewn cyflwr gwael ac yn anaddas at ddefnydd y gymuned.

Byddai adeilad ysgol newydd hefyd yn gostwng y costau atgyweirio a chynnal a chadw parhaus. Byddai'r adeilad ysgol newydd hefyd yn bodloni meini prawf BREEAM Excellent drwy sicrhau effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

Byddai'r cynnig yn darparu amgylcheddau dysgu'r 21 Ganrif i ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant a disgyblion y dyfodol.

Mae hefyd yn werth nodi na fyddai cyfraniad y Cyngor yn cael ei gyllido gan ddefnyddio arian trethdalwyr ond yn defnyddio cyllid Adran 106 a dderbynnir gan ddatblygwyr tai. Byddai gweddill y cyllid yn destun cais i Lywodraeth Cymru drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Dyrennir cyfradd cyfraniadau uwch o 85% i ysgolion ffydd. Byddai'r cyllid yn destun achos busnes a gaiff ei asesu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cynnig hwn yn bodloni nifer o amcanion Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys:

- ehangu ysgolion a cholegau mewn ardaloedd y mae galw cynyddol am wasanaethau addysgol ynddynt;
- mynd i'r afael â chyflwr asedau addysgol; a
- sicrhau bod asedau ar gael at ddefnydd y gymuned pan fo galw amdanynt, i wneud y gorau o'r seilwaith ar adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Thema Gwrthwynebiad 5

Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i fodelu'r galw am leoedd ysgol yn y dyfodol yn ddiffygiol ac nid yw'n adlewyrchu'r arolygon agweddau cymdeithasol cenedlaethol sy'n rhoi Cristnogaeth Anglicanaidd rhwng 14 a 18%.

Ymateb y corff llywodraethu i'r gwrthwynebiad

Tîm Mynediad a Threfniadau Ysgolion gyflwynodd yr amcanestyniad o'r galw am leoedd i ddisgyblion yn y dyfodol. Mae methodoleg amcanestyniadau disgyblion y Cyngor yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Archwilio ac yn seiliedig ar gymhwyso cymarebau dalgylch a chyfraddau goroesi carfannau (y berthynas rhwng nifer y disgyblion mewn un garfan mewn un flwyddyn ysgol, a'r un garfan yn y flwyddyn ysgol nesaf). Mae amcanestyniadau disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth a hefyd yn rhoi ystyriaeth i ddata cyfredol a hanesyddol

ysgolion, cyfraddau geni, datblygiadau tai a gynllunnir a symudiadau ar draws dalgylchoedd. Yn Archwiliad Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg Estyn 2013, nodwyd "Mae gan yr awdurdod systemau priodol ar waith ar gyfer rhagweld niferoedd disgyblion a'r gofynion o ran lleoedd ysgol gan ddefnyddio ystod data addas."

O ran datblygiadau tai, caiff y nifer amcanestynedig o ddisgyblion sy'n deillio o ddatblygiad ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla sy'n deillio o ddata cyfrifiad o ddeiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae'r fformiwla wedi'i chynnwys yng Nghlanllawiau Atodol y Cyngor ar ddibenion cynllunio. Ar lefel meithrin cyfrifir hyn ar sail 0.1 disgybl fesul uned ac ar lefel cynradd 0.278 fesul uned. Mae'r galw am ysgolion unigol yn seiliedig ar raniad o'r canran hanesyddol.

Mae hefyd yn werth nodi bod 60% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant wedi cael eu nodi yn Gristion.

Thema Gwrthwynebiad 6

Ni ddylid defnyddio cyllid Adran 106 i gyllido'r cynnig hwn gan na fyddai o fudd i'r gymdeithas gyfan. Gallai tai fforddiadwy fod yn ddewis arall.

Ymateb y corff llywodraethu i'r gwrthwynebiad

Mae gan y Cyngor y grym i lunio cytundebau cyfreithiol gyda datblygwyr dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i fynnu bod datblygwyr yn gwneud gwaith, yn darparu gwasanaethau neu yn gwneud cyfraniadau ariannol i liniaru'r effaith sy'n deillio o'r datblygiad newydd.

Nodir polisïau'r Cyngor ar dai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Bro Morgannwg (2011-2026) ac yn nogfennau'r Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig ar Dai Fforddiadwy (CCA).

Mae'r cyfraniadau a fyddai'n dod i law i ariannu'r cynnig hwn wedi'u neilltuo ar gyfer addysg ac ni ellir eu defnyddio at ddibenion eraill, megis tai fforddiadwy, yn unol â'r Cytundebau Adran 106 unigol. Fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, mae'r galw a ragwelir yn y dyfodol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn cynyddu o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar a datblygiadau tai a gynigir. Felly, byddai defnyddio cyfraniadau Adran 106 i gyllido'r cynnig hwn yn cyd-fynd â'r Cytundebau Adran 106.

Casgliad

Mae'r corff llywodraethu wedi dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant a disgyblion y dyfodol. Byddai'r cynnig yn cyflwyno amgylcheddau addysgu a dysgu y 21ain Ganrif a fyddai'n hyrwyddo llesiant disgyblion a'u hagweddu at ddysgu. Byddai seilwaith TGCh gwell yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu addasu newidiadau i'r cwricwlwm yn y dyfodol.

Byddai'r cynnig hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni ei ddyletswydd statudol i ddarparu nifer y lleoedd ysgol digonol. Nid oes gan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ddigon o le ac mae mwy o geisiadau am lleoedd yn dod i law na nifer y lleoedd sydd ar gael rheolaidd wrth i'r boblogaeth leol gynyddu gyda datblygiadau tai ychwanegol.

Mae'r adeiladau presennol mewn cyflwr gwael ac mae'r gwaith cynnal a chadw parhaus yn gostus ac yn tarfu ar yr ysgol. Byddai adeilad ysgol newydd yn lleihau effaith y gwaith cynnal a chadw parhaus hwn ar y refeniw.

Mae'r corff llywodraethu yn nodi pryderon trigolion lleol mewn perthynas â rhagor o draffig a byddai'n cydweithio'n glos â'r Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif i liniaru effaith hyn. Fel yr amlinellwyd uchod, byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gynnal a'i gynnwys yn y dyluniad. Byddai'r dyluniad terfynol yn destun cais cynllunio. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad ffurfiol gyda thrigolion lleol.

Argymhellion

Argymhellir:

1. Bod y corff llywodraethu yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ynghyd a'r gwrthwynebiadau unigol a ddaeth i lawn yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.
2. Bod y corff llywodraethu yn cymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebu.
3. Bod y corff llywodraethu yn cymeradwyo'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o 140 o leoedd i 210 o leoedd o fis Medi 2021.
4. Bod y corff llywodraethu yn cyfeirio at y Ddogfen Ymgynghori, Adroddiad Ymgynghori, Hysbysiad Statudol, Adroddiad Gwrthwynebu a Gwrthwynebiadau at y Cyngor i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch y cynnig yn unol ag adran 51 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.